PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Mercher, 19 Ebrill 2023 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Karen Edwards, Gwyneth Ellis, James Elson, Huw Hilditch-Roberts, Alan James, Delyth Jones, Julie Matthews, Win Mullen-James, Merfyn Parry, Gareth Sandilands, Peter Scott (Is-Gadeirydd), Andrea Tomlin, Cheryl Williams a/ac Mark Young (Cadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Cyfreithiol (CL), Rheolwr Rheoli Datblygu (PM); Pen Swyddog Cynllunio (PG); Gwesteiwr Chwyddo (KJ); Gweinyddwr y Pwyllgor (RTJ).

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Chris Evans, Jon Harland, Terry Mendies, Pete Prendergast ac Elfed Williams.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023.

Materion cywirdeb -

- Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith fod y cofnodion yn nodi bod rhai o'r Aelodau yn bresennol ar-lein ac wyneb yn wyneb. Ymatebodd y Cadeirydd gan ddweud y tynnwyd sylw'r swyddogion at y mater ac na fyddai cofnodion cyfarfodydd y dyfodol yn gwahaniaethu rhwng yr Aelodau sy'n bresennol wyneb yn wyneb a'r rhai sy'n bresennol ar-lein.
- Sylwodd y Cynghorydd Andrea Tomlin fod eitem 5 ar y rhaglen yn nodi ei bod wedi bod yn byw ym Mhrestatyn ar hyd ei hoes yn hytrach nag "ers blynyddoedd lawer".

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, y byddai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.*

5 CAIS RHIF 09/2022/1080 - TIR GYFERBYN Â PHORTH Y WAEN, ABERCHWILER, DINBYCH

Cyflwynwyd cais i newid defnydd tir amaethyddol i lunio tir amwynder cymunedol, creu mynedfa newydd i gerbydau a maes parcio, ynghyd â gwaith cysylltiedig, ar y Tir gyferbyn â Phorth y Waen, Aberchwiler, Dinbych (rhannwyd ymlaen llaw).

Cynigiodd y Cynghorydd Merfyn Parry (**Aelod lleol**) y dylid gohirio'r eitem gan fod gwybodaeth wedi dod i law yn hwyr nad oedd y pwyllgor wedi'i gweld. Yn ogystal, gofynnodd y Cynghorydd Parry am gael trefnu ymweliad â'r safle a dod â'r cais ger bron y cyfarfod nesaf, i sicrhau na fyddai'r oedi'n cael effaith ar benderfynu ar y cais. Eiliodd y Cynghorydd Peter Scott y cynnig.

PLEIDLAIS –

O Blaid Gohirio – 14
Ymatal – 0
Gwrthod – 0

***PENDERFYNWYD GOHIRIO'R** cais cynllunio.*

6 ADOLYGU'R PROTOCOL HYFFORDDIANT AELODAU

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu adroddiad a oedd yn amlinellu'r newidiadau a awgrymwyd i'r Protocol Hyfforddiant Aelodau (Cynllunio). Os bydd y Pwyllgor Cynllunio yn cytuno ar y rhain, bydd fersiwn newydd y Protocol Hyfforddiant Aelodau (Cynllunio) yn cael ei roi ar waith ar unwaith (rhannwyd ymlaen llaw).

Y Protocol Hyfforddiant Aelodau (Cynllunio) yw'r ddogfen sy'n nodi'r angen i Aelodau gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosesau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir o fewn y system Gynllunio, ac i roi gwybod i'r Aelodau am unrhyw newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth. Mae'r Protocol yn amlinellu'r lefel o hyfforddiant sy'n angenrheidiol, beth a ystyrir yn hyfforddiant a sut y bydd yr hyfforddiant yn cael ei gofnodi. Mae hyfforddiant yn sicrhau bod Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau cadarn y gellir eu hamddiffyn am gynigion datblygu a materion eraill. Mae risgiau'n codi pan fydd yr Aelodau'n gwneud penderfyniadau mewn Pwyllgor Cynllunio – megis y rhai sy'n cynnwys apeliadau cynllunio a heriau cyfreithiol – heb y lefel angenrheidiol o wybodaeth. Heb lefel ddigonol a phriodol o hyfforddiant, ni fydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn gallu pleidleisio ar faterion cynllunio yn y pwyllgor.

Tynnodd y swyddogion sylw at y newid yn y Protocol (Paragraff V3 2); byddai'r newid yn cydnabod elfennau o hyfforddiant Cynllunio nad oeddent yn cael eu harwain gan y swyddogion Cynllunio, gan y byddent wedi'u cysylltu â Chynllunio

mewn rhyw ffordd, ac o fudd i'r Aelodau. Byddai'r newid hwn yn gofyn am ymddiriedaeth rhwng yr Aelodau a'r Swyddogion.

Soniodd yr Aelodau am y dull o gynnal yr hyfforddiant, a p'un a ellid cynnal y sesiynau'n hybrid. Dywedodd y swyddogion fod hwn yn ddull a fyddai'n cael ei ystyried, ond eu bod yn teimlo y byddai'n fwy buddiol cynnal sesiynau hyfforddi mwy dwys wyneb yn wyneb, gan eu bod o'r farn y byddai hynny'n fwy ymgysylltiol. Anghytunodd y Cynghorydd Julie Matthews â'r farn bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn fwy ymgysylltiol; byddai cynnal pob sesiwn ar ffurf hybrid yn galluogi mwy o aelodau i gymryd rhan yn yr hyfforddiant.

Roedd yr aelodau yn cefnogi derbyn unrhyw hyfforddiant a oedd ar gael iddynt; roeddent yn teimlo y byddai hyn yn eu helpu i wneud penderfyniadau mwy cytbwys a fyddai, yn ei dro, yn eu hamddiffyn pe bai'r penderfyniadau hynny'n cael eu herio.

Cyflwynodd y pwyllgor eu pryderon gyda natur gymhleth cynllunio i'r swyddogion, gan holi a allent gael hyfforddiant ar agweddau mwy arbenigol cynllunio. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai gwybodaeth am y materion hyn o fudd i'r aelodau. Fodd bynnag, bu iddynt awgrymu mai nodiadau briffio ar y materion fyddai'n fwyaf tebygol o helpu, yn hytrach na sesiynau hyfforddi, gan fod yna nifer o elfennau o'r broses gynllunio y gellid eu trafod.

PENDERFYNWYD *y byddai'r aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn mabwysiadu'r newidiadau a awgrymwyd i'r Protocol Hyfforddi Aelodau (Cynllunio).*